OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 2989 (Cy.278)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud - -	*15 Tachwedd 2006*
Yn dod i rym - -	*10 Rhagfyr 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 78A(9), 78C(8) i (10), 78E(1) a (6), 78G(5) a (6)(**1**), 78L(4)(**2**) a (5) a 78R(1), (2) ac (8) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ("Deddf 1990")(**3**) ac sydd bellach yn arferadwy o ran Cymru gan y Cynulliad Cenedlaethol(**4**), a chan yr adrannau hynny fel y'u cymhwysir gan Reoliadau Tir a halogwyd yn ymbelydrd (Addasu Deddfiadau) (Cymru) 2006 ("y Rheoliadau Addasu")(**5**) o ran niwed, i'r graddau y mae niwed i'w briodoli i unrhyw ymbelydredd sy'n perthyn i unrhyw sylwedd, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 10 Rhagfyr 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, oni nodir yn wahanol —

(a) mae unrhyw gyfeiriad at adran â Rhif yn gyfeiriad at yr adran o Ddeddf 1990 sy'n dwyn y Rhif hwnnw, neu, o ran niwed sydd i'w briodoli i unrhyw ymbelydredd sy'n perthyn i unrhyw sylwedd, i'r adran honno fel y'i haddaswyd gan y Rheoliadau Addasu; a

(b) o ran niwed, i'r graddau y mae i'w briodoli i unrhyw ymbelydredd sy'n perthyn i unrhyw sylwedd, mae gan unrhyw derm a ddiffinnir gan Ddeddf 1990 yr ystyr a roddir iddo gan y Ddeddf honno fel y'i haddasir gan y Rheoliadau Addasu.

(**1**) Mae adran 78G(6) yn darparu y caiff rheoliadau a wnaed o dan is-adran 78G(5) wneud y cyfryw ddarpariaeth o ran iawndal ag y caniateir ei gwneud gan reoliadau yn rhinwedd adran 35A(4) o Ddeddf 1990 o ran iawndal o dan yr adran honno.

(**2**) Diwygiwyd is-adran (4) o adran 78L gan Ddeddf Cymdogaethau ac Glân a'r Amgylchedd 2005 (p.16), adrannau 104 a 107, a Rhan 10 o Atodlen 5.

(**3**) 1990 p.43. Mewnosodwyd adrannau 78A i 78YC gan adran 57 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25). *Gweler* y diffiniad o "prescribed" ac o "regulations" yn adran 78A(9).

(**4**) *Gweler* erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo.

(**5**) O.S. 2006/2988 (Cy.277).

Tir y mae'n ofynnol ei ddynodi'n safle arbennig

2.—(1) At ddibenion adran 78C(8) rhagnodir tir halogedig a ddisgrifir fel a ganlyn yn dir y mae'n ofynnol ei ddynodi'n safle arbennig —

(a) tir sy'n effeithio ar ddyfroedd rheoledig yn yr amgylchiadau a bennir yn rheoliad 3;

(b) tir sy'n dir halogedig oherwydd tarau asid gwastraff yn y tir, arno neu oddi tano;

(c) tir y cynhaliwyd unrhyw un neu rai o'r gweithgareddau canlynol arno ar unrhyw adeg —

(i) puro (gan gynnwys coethi) petroliwm crai neu olew a echdynnwyd o betroliwm, siâl neu unrhyw sylwedd bitwminaidd arall ac eithrio glo; neu

(ii) gweithgynhyrchu neu brosesu ffrwydron;

(ch) tir y mae proses ragnodedig a ddynodwyd i'w rheoli'n ganolog wedi'i chyflawni arno neu wrthi'n cael ei chyflawni arno o dan awdurdodiad pan nad yw'r broses yn cynnwys dim ond pethau sy'n cael eu gwneud ac y mae'n ofynnol eu gwneud o ran gwaith adfer;

(d) tir lle mae gweithgaredd wedi, neu yn cael, ei gynnal mewn gweithfan Rhan A(1) neu trwy gyfrwng gwaith symudol Rhan A(1) o dan drwydded, pan nad yw'r gweithgaredd yn cynnwys pethau sy'n cael eu gwneud ac y mae'n ofynnol eu gwneud o ran gwaith adfer;

(dd) tir o fewn safle niwclear;

(e) tir a berchenogir neu a feddiennir gan neu ar ran —

(i) yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn,

(ii) y Cyngor Amddiffyn,

(iii) pencadlys rhyngwladol neu gorff amddiffyn, neu

(iv) awdurdod lluoedd arfog llu sydd ar ymweliad,

sef tir a ddefnyddir at ddibenion llynges, byddin neu awyrlu;

(f) tir y gwnaed gwaith arno i weithgynhyrchu, cynhyrchu neu waredu —

(i) arfau cemegol,

(ii) unrhyw gyfrwng neu ddiocsin biolegol sy'n dod o fewn adran 1(1)(a) o Ddeddf Arfau Biolegol 1974(**6**) (cyfyngiad ar ddatblygu cyfryngau a thocsinau biolegol), neu

(iii) unrhyw arf, offer neu fodd danfon sy'n dod o fewn adran 1(1)(b) o'r Ddeddf honno (cyfyngiad ar ddatblygu arfau biolegol),

ar unrhyw adeg;

(ff) tir sy'n fangre a ddynodir neu a ddynodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy orchymyn a wnaed o dan adran 1(1) o Ddeddf y Sefydliad Arfau Niwclear 1991(**7**) (trefniadau ar gyfer datblygu etc dyfeisiau niwclear);

(g) tir y mae adran 30 o Ddeddf y Lluoedd Arfog 1996(**8**) (tir a gedwir er budd Ysbyty Greenwich) yn gymwys ar ei gyfer;

(ng) tir sy'n dir wedi'i halogi'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn rhinwedd unrhyw ymbelydredd sy'n perthyn i unrhyw sylwedd yn y tir hwnnw, arno neu oddi tano, a

(h) tir —

(i) sy'n gyffiniol neu'n gyfagos â thir o ddisgrifiad a bennir yn is-baragraffau (b) i (ng) uchod; a

(ii) sy'n dir halogedig yn rhinwedd sylweddau y mae'n ymddangos eu bod wedi dianc o dir o'r disgrifiad hwnnw.

(**6**) 1974 p.6.
(**7**) 1991 p.46.
(**8**) 1996 p.46.

(2) At ddibenion paragraff (1)(b), mae "tarau asid gwastraff" yn darau —

(a) sy'n cynnwys asid sylffwrig;

(b) a gynhyrchwyd o ganlyniad i goethi bensol, ireidiau a ddefnyddiwyd neu betroliwm; ac

(c) sydd, neu a oedd, yn cael eu storio ar dir a ddefnyddiwyd fel basn cadw ar gyfer gwaredu tarau o'r fath.

(3) Ym mharagraff (1)(ch), mae i "awdurdodiad" a "proses ragnodedig" yr un ystyr ag "authorisation" a "prescribed process" yn Rhan I o Ddeddf 1990 (rheoli integredig ar lygredd a rheoli llygredd aer gan awdurdodau lleol) ac mae'r cyfeiriad at ddynodi i'w rheoli'n ganolog yn gyfeiriad at ddynodi o dan adran 2(4) (sy'n darparu i brosesau gael eu dynodi i'w rheoli'n ganolog neu yn lleol).

(4) Ym mharagraff (1)(d), mae i "gweithfan Rhan A(1), "gwaith symudol Rhan A(1)" a "trwydded" yr un ystyr â "Part A(1) installation", "Part A(1) mobile plant" a "permit" yn Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) 2000(**9**).

(5) Ym mharagraff (1)(dd) uchod, ystyr "safle niwclear" yw—

(a) unrhyw safle y mae trwydded safle niwclear mewn grym am y tro ar ei gyfer, neu ar gyfer rhan ohono; neu

(b) unrhyw safle nad yw cyfnod cyfrifoldeb y trwyddedai wedi dod i ben ar ei gyfer neu ar gyfer rhan ohono, ar ôl iddo ddiddymu neu ildio trwydded safle niwclear.

(6) Ym mharagraff (5) mae i "trwydded safle niwclear", "trwyddedai" a "cyfnod cyfrifoldeb" yr ystyr a roddir i "nuclear site licence", "licensee" a "period of responsibility" gan Ddeddf Sefydliadau Niwclear 1965(**10**).

(7) At ddibenion paragraff (1)(e), dim ond os yw'r tir yn rhan o ganolfan a feddiennir at ddibenion llynges, byddin neu awyrlu y mae tir sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion preswyl gan Sefydliadau'r Llynges, y Fyddin a'r Awyrlu i'w drin fel tir sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion llynges, byddin neu awyrlu.

(8) Ym mharagraff (1)(e)—

ystyr "pencadlys rhyngwladol" a "corff amddiffyn" yw, yn eu tro, unrhyw bencadlys rhyngwladol, ac unrhyw gorff amddiffyn, a ddynodwyd at ddibenion Deddf Pencadlysoedd Rhyngwladol a Chyrff Amddiffyn 1964(**11**);

mae i "awdurdod lluoedd arfog" a "llu ar ymweliad" yr un ystyr â "service authority" a "visiting force" yn Rhan I o Ddeddf Lluoedd ar Ymweliad 1952(**12**).

(9) Ym mharagraff (1)(f), mae i "arf cemegol" yr ystyr sydd i "chemical weapon" yn is-adran (1) o adran 1 o Ddeddf Arfau Cemegol 1996(**13**), gan ddiystyru is-adran (2) o'r adran honno.

Llygru dyfroedd a reolir

3. Yr amgylchiadau y mae rheoliad 2(1)(a) yn cyfeirio atynt yw—

(a) pan fydd y tir yn effeithio ar ddyfroedd a reolir sy'n cael eu defnyddio, neu y bwriedir eu defnyddio, i gyflenwi dŵr i bobl ei yfed a phan fydd angen defnyddio proses, o'r herwydd, i'w trin neu newid y broses honno cyn i'r dyfroedd gael eu defnyddio, er mwyn iddynt gael eu hystyried yn ddyfroedd iachusol o fewn ystyr Rhan 3 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(**14**) (y cyflenwad dŵr);

(**9**) O.S. 2000/1973.
(**10**) 1965 p.57.
(**11**) 1964 p.5.
(**12**) 1952 p.67.
(**13**) 1996 p.6.
(**14**) 1991 p.56.

(b) pan fydd y tir yn effeithio ar ddyfroedd a reolir ac, o'r herwydd, nad yw'r dyfroedd hynny yn bodloni neu nad ydynt yn debygol o fodloni'r maen prawf ar gyfer y dosbarthiad sy'n gymwys i'r disgrifiad perthnasol o ddyfroedd a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 82 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991(**15**) (dosbarthu ansawdd dyfroedd); neu

(c) pan fydd y tir yn effeithio ar ddyfroedd a reolir ac —

(i) pan fydd unrhyw un o'r sylweddau y mae llygru'r dyfroedd yn cael ei achosi ganddynt neu'n debygol o gael ei achosi ganddynt yn dod o fewn unrhyw un o'r teuluoedd neu'r grwpiau o sylweddau a restrir ym mharagraff 1 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn, a

(ii) pan fydd y dyfroedd, neu unrhyw ran o'r dyfroedd, yn cael eu cynnwys o fewn strata tanddaearol sy'n cynnwys, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, unrhyw un o'r ffurfiannau creigiau a restrir ym mharagraff 2 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

Cynnwys hysbysiadau adfer

4.—(1) Rhaid i hysbysiad adfer ddatgan (yn ychwanegol at y materion sy'n ofynnol o dan adran 78E(1) a (3))—

(a) enw a chyfeiriad y person y cyflwynir yr hysbysiad iddo;

(b) lleoliad a hyd a lled y tir halogedig y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef (y cyfeirir ato yn y rheoliad hwn fel y "tir halogedig o dan sylw"), yn ddigon manwl i ganiatáu iddo gael ei adnabod naill ai drwy gyfeirio at blan neu fel arall;

(c) dyddiad unrhyw hysbysiad a roddwyd o dan adran 78B(3) i'r person y cyflwynir yr hysbysiad adfer iddo yn pennu'r tir halogedig o dan sylw yn dir halogedig;

(ch) a yw'r awdurdod gorfodi o'r farn bod y person y cyflwynir yr hysbysiad iddo yn berson priodol oherwydd —

(i) bod y person wedi achosi neu, gan wybod, wedi caniatáu i'r sylweddau, neu i unrhyw un o'r sylweddau, y mae'r tir halogedig o dan sylw yn dir halogedig o'u herwydd, fod yn y tir, arno neu oddi tano, neu

(ii) mai'r person yw perchennog neu feddiannydd y tir halogedig o dan sylw;

(d) manylion y niwed sylweddol, y niwed neu'r llygredd i ddyfroedd a reolir y mae'r tir halogedig o dan sylw yn dir halogedig o'u herwydd;

(dd) y sylweddau y mae'r tir halogedig o dan sylw yn dir halogedig o'u herwydd ac, os oes unrhyw un o'r sylweddau wedi dianc o dir arall, lleoliad y tir arall hwnnw;

(e) rhesymau'r awdurdod gorfodi dros ei benderfyniadau ynglŷn â'r pethau y mae'n ofynnol i'r person priodol eu gwneud o ran gwaith adfer, sef rhesymau y mae'n rhaid iddynt ddangos sut y mae unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 78E(5) wedi'u cymhwyso;

(f) pan fydd dau neu ragor o bersonau yn bersonau priodol mewn perthynas â'r tir halogedig dan sylw —

(i) mai felly y mae hi,

(ii) enw a chyfeiriad pob un person o'r fath, a

(iii) y peth y mae pob person o'r fath yn gyfrifol amdano o ran gwaith adfer;

(ff) pan fyddai dau neu ragor o bersonau, ar wahân i adran 78F(6), yn bersonau priodol mewn perthynas ag unrhyw beth penodol sydd i'w wneud o ran gwaith adfer, rhesymau'r awdurdod gorfodi dros ei benderfyniad ynghylch a ddylid trin unrhyw un neu fwy ohonynt, ac os felly, pa rai, fel person nad yw'n berson priodol mewn perthynas â'r peth hwnnw, sef

(**15**) 1991 p.57.

rhesymau y mae'n rhaid iddynt ddangos sut y mae unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 78F(6) wedi'u cymhwyso;

(g) pan fydd adran 78E(3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad adfer ddatgan pa gyfran o gost peth sydd i'w wneud o ran gwaith adfer y mae pob un o'r personau priodol yn atebol i'w thalu mewn perthynas â'r peth hwnnw, rhesymau'r awdurdod gorfodi am y gyfran y mae wedi penderfynu arni, sef rhesymau y mae'n rhaid iddynt ddangos sut y mae unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 78F(7) wedi'u cymhwyso;

(ng) pan fydd yn hysbys i'r awdurdod gorfodi, enw a chyfeiriad —

(i) perchennog y tir halogedig o dan sylw, ac

(ii) unrhyw berson y mae'n ymddangos i'r awdurdod gorfodi ei fod yn meddiannu'r cyfan neu unrhyw ran o'r tir halogedig o dan sylw;

(h) pan fydd yn hysbys i'r awdurdod gorfodi, enw a chyfeiriad unrhyw berson y mae'n ofynnol cael ei gydsyniad o dan adran 78G(2) cyn y gellir gwneud unrhyw beth sy'n ofynnol o dan yr hysbysiad adfer;

(i) pan fwriedir cyflwyno'r hysbysiad drwy ddibynnu ar adran 78H(4), ei bod yn ymddangos i'r awdurdod gorfodi bod y tir halogedig o dan sylw yn y fath gyflwr, oherwydd sylweddau sydd yn y tir, arno neu odano, nes bod perygl ar fin digwydd o beri niwed difrifol neu lygredd difrifol i ddyfroedd a reolir;

(j) y gall person y cyflwynwyd hysbysiad adfer iddo fod yn euog o dramgwydd am iddo fethu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio ag unrhyw un neu rai o ofynion yr hysbysiad;

(l) y cosbau y gellir eu cymhwyso ar gollfarnu am dramgwydd o'r fath;

(ll) enw a chyfeiriad yr awdurdod gorfodi sy'n cyflwyno'r hysbysiad; ac

(m) dyddiad yr hysbysiad.

(2) Rhaid i hysbysiad adfer esbonio—

(a) bod gan berson y'i cyflwynir iddo hawl i apelio yn erbyn yr hysbysiad o dan adran 78L;

(b) sut, o fewn pa gyfnod ac ar ba sail y gellir apelio; ac

(c) bod hysbysiad yn cael ei atal, pan fydd apêl yn cael ei gwneud yn briodol, nes penderfynu'n derfynol ar yr apêl neu roi'r gorau iddi.

Cyflwyno copïau o hysbysiadau adfer

5.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i'r awdurdod gorfodi, yr un pryd ag y mae'n cyflwyno hysbysiad adfer, anfon copi ohono at bob un o'r personau canlynol, nad yw'n berson y mae'r hysbysiad i'w gyflwyno iddo—

(a) unrhyw berson yr oedd yn ofynnol ymgynghori ag ef o dan adran 78G(3) cyn cyflwyno'r hysbysiad;

(b) unrhyw berson yr oedd yn ofynnol ymgynghori ag ef o dan adran 78H(1) cyn cyflwyno'r hysbysiad;

(c) os mai'r awdurdod lleol yw'r awdurdod gorfodi, Asiantaeth yr Amgylchedd; ac

(ch) os Asiantaeth yr Amgylchedd yw'r awdurdod gorfodi, yr awdurdod lleol y mae'r tir halogedig o dan sylw wedi'i leoli yn ei ardal.

(2) Pan fydd yn ymddangos i'r awdurdod gorfodi fod y tir halogedig o dan sylw yn y fath gyflwr oherwydd y sylweddau sydd ynddo, arno neu oddi tano nes bod perygl ar fin digwydd o beri niwed difrifol neu lygredd difrifol i ddyfroedd a reolir, rhaid i'r awdurdod gorfodi anfon unrhyw gopïau o'r hysbysiad yn unol â pharagraff (1) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyflwyno'r hysbysiad.